

# STRATEGAETH DATBLYGU POBL A SEFYDLIAD 2020-2023



"Fel elfen gyfrannol allweddol o berfformiad a chynaliadwyedd y Brifysgol, mae gan y strategaeth hon ran bwysig i'w chwarae i sicrhau bod pob cydweithiwr ledled y Brifysgol mewn sefyllfa i weithio tuag at gyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion sefydliadol." Nick Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.

## DIBENION AC AMCANION

Diben y strategaeth hon yw symbylu a hyrwyddo mentrau a fydd yn gwneud PA yn gyflogwr a ffafir yng ngolwg y staff presennol a darpar aelodau staff. Mae'r Brifysgol yn amgylchedd gwaith creadigol ac ysgogol tu hwnt lle mae angen cydnabod a rhoi gwerth ar gyfraniad staff .

Mae i'r strategaeth bump o amcanion:

- **Sicrhau bod y Brifysgol wedi'i threfnu, ei harwain a'i rheoli yn effeithiol er mwyn gwella perfformiad sefydliadol a chynaliadwyedd ariannol.**
- **Sicrhau bod gan bob aelod staff sgiliau proffesiynol ac y gallant gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol er mwyn cefnogi'r Cynllun Strategol.**
- **Darparu telerau, amodau a manteision sy'n annog perfformiad aruchel a'r gallu i ddenu a chadw staff o'r radd flaenaf.**
- **Datblygu proffesiynoldeb ac arbenigedd Adnoddau Dynol er mwyn ymgorffori dulliau effeithiol o reoli pobl ledled y Brifysgol.**
- **Datblygu diwylliant 'Un PA' sy'n rhoi parch a gwerth ar gyfraniad pawb.**

## EGWYDDORION A GWERTHOEDD ARWEINIOL

Fel un o'r strategaethau galluogi yn y Brifysgol, cawn ein tywys gan werthoedd a nodir yn y Cynllun Strategol a'r egwyddorion allweddol canlynol:

- **Cynyddu'r gwerth a rown ar arferion rhagorol o ran dysgu ac addysgu, ymchwil a phrofiad y myfyriwr.**
- **Hyrwyddo ac annog y Gymraeg a diwylliant Cymru yn ein gwaith i gyd.**
- **Cynyddu proffesiynoldeb pob maes o'r Brifysgol yn barhaus fel y bydd PA yn cael ei hystyried yn esiampl gan sefydliadau eraill a chyrff allanol.**


- **Datblygu diwylliant a hyrwyddo ymddygiadau sy'n creu ymwybyddiaeth bersonol o atebolrwydd ochr yn ochr ag amgylchedd cadarnhaol i bob cydweithiwr a myfyriwr.**
- **Cyfrannu i weithgareddau sy'n ategu ymrwymiad Prifysgol Aberystwyth i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ymwybyddiaeth gymdeithasol ac amgylcheddol ochr yn ochr ag arferion cynaliadwy a moesegol; a lles staff.**
- **Annog arferion a phrosesau gwaith effeithiol er mwyn bod mor effeithlon ag y gellir.**
- **Gwella'n barhaus y defnydd a wneir o ddatrysiadau technegol ymhob agwedd ar waith y Brifysgol.**
- **Cynnal perthynas â'r undebau llafur sy'n adeiladol i'r ddwy ochr.**

## LLWYDDIANNAU'R DYFODOL

Y llwyddiannau amlycaf yn y dyfodol fydd cyrraedd targedau a nodwyd yn ein cynllun tair blynedd. Bydd y rhain yn pennu sut y mae Adnoddau Dynol wedi gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'r Brifysgol. Byddwn yn disgwyl gwelliant i'r canlyniadau yn y canlynol:

- **Dulliau rheoli pobl, sy'n ddulliau a feincnodir gyda phrifysgolion a sectorau eraill.**
- **Adborth strwythuredig/gan gwsmeriaid.**
- **Ein proffil amrywiaeth staff a myfyriwr.**
- **Perthynas waith agosach rhwng Cyfadrannau a Gwasanaethau Proffesiynol.**
- **Canlyniadau arolygon staff yn y dyfodol.**
- **Gwobrau ac achrediadau allanol am arferion rhagorol cydnabyddedig.**

# YMDDYGIADAU DISGWYLIEDIG I GEFNOGI CYNLLUN STRATEGOL Y BRIFYSGOL A'R STRATEGAETH POBL



Byddwn yn rhoi gwerth ac yn atgyfnerthu'r ymddygiadau hyn trwy'r prosesau canlynol:

- Recriwtio a dethol
- Dyrchafiadau a datblygu gyrfa
- Y Drefn Cyfraniad Effeithiol
- Datblygu arweinwyr a rheolwyr
- Hyfforddiant personol a chyfleoedd datblygu
- Cydnabod staff

Y cwbl o fewn i gyd-destun cynaliadwyedd ariannol wrth sicrhau ymchwil, dysgu ac addysgu, a phrofiad myfyriwr uchel ei safon